



# Newyddlen ERAMMP Gwanwyn 2022

## Arolwg Maes Cenedlaethol ERAMMP 2022

**Croeso i newyddlen gwanwyn 2022 (nid ydym yn y gwanwyn eto ond mae'n agosáu!) gan Raglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP). Yn y rhifyn hwn, rydym ni'n edrych ymlaen at gynlluniau Arolwg Maes Cenedlaethol 2022.**

Mae'r Arolwg Maes Cenedlaethol yn asesu effaith cynllun ffermio cynaliadwy Glastir drwy arolygu tir sydd yng nghynllun Glastir a'r tu allan iddo, gan adrodd ar dueddiadau cenedlaethol yn ein cefn gwlad. Mae gwaith cynllunio tymor arolwg maes 2022 eisoes ar waith, ac mae ymweliadau cyntaf arolygwyr wedi'u trefnu am Ebrill cynnar!



### Diolch am yr holl ganiatadau mynediad a dderbyniwyd

**Mae llythyron cais am ganiatâd mynediad i dir wedi cael eu hanfon. A wnewch chi ymateb, os gwelwch yn dda.**

Diolch i bawb sydd wedi ymateb i'n llythyron caniatâd mynediad a anfonwyd ychydig cyn y Nadolig. Mae eich cefnogaeth i'r Arolwg Maes Cenedlaethol yn hollbwysig i ni sicrhau bod y data rydym ni'n ei gasglu'n cael effaith ar bolisi ffermio a'n cefn gwlad.

Y llynedd, rhoddwyd caniatâd ar gyfer 73% i ni, sy'n wych, er gwaethaf amseroedd heriol dan ganllawiau covid. Mae hyn wedi arwain at ymgyrch faes lwyddiannus, gyda 27 o arolygwyr yn delio â Chymru gyfan ac yn casglu data botanegol, coetir, peillwyr, pridd, nodweddion hanesyddol a dŵr croyw.

Os nad ydych wedi ymateb eto i'n cais am ganiatâd drwy lythyr neu dros y ffôn, a fydech gystal â gwneud hynny cyn gynted â phosib? Mae hyn yn ein helpu i gynllunio arolwg effeithiol ac yn ein harbed gorfod cysylltu â chi eto yn ystod yr wythnosau nesaf.

Os nad ydych chi wedi derbyn llythyr yn ddiweddar, peidiwch â phoeni, mae'n debygol o olygu na fyddwn ni'n ymweld â'ch tir chi eleni.



## Cynlluniau ar gyfer Arolwg Maes Cenedlaethol 2022

**Bydd timoedd o arolygwyr arbenigol yn cofnodi data o Ebrill i Hydref.**

Mae Arolwg Maes Cenedlaethol ERAMMP yn cofnodi ac yn asesu cyflwr cynefinoedd, coetiroedd, llwyni, priddoedd, planhigion, nentydd, pyllau, nodweddion hanesyddol a hawliau tramwy cyhoeddus. Mae hefyd yn cofnodi niferoedd a rhywogaethau adar unigol a phryfed peillio.

*Mae'r tabl hwn yn rhoi dadansoddiad o arolygon ac amseroedd unigol*

Timoedd Arolygu	Mis	Amser y Dydd
Botanegol	Mai – Fedi	08:00-18:00
Coetir a Nodweddion Hanesyddol	Mai – Hydref	08:00-18:00
Adar a llwybrau troed cyhoeddus	Ebrill a Mai	Dwywaith, yn gynnar yn y bore
Priddoedd	Mai	09:00-18:00
Dŵr Croyw	Mehefin – Awst	08:00-18:00

Yn ystod 2022, bydd yn mapio 80+ o sgwarau 1km eraill a ddewiswyd o flaen llawn. Bydd yn adeiladu ar arolwg 2021, yn ogystal ag eraill megis arolwg Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP) a gynhaliwyd rhwng 2013 a 2016, Arolwg y Cefn Gwlad a'r Arolwg Adar Bridio.



Mae gan yr Arolwg Maes Cenedlaethol sawl arolwg arbenigol unigol, sy'n cofnodi data yn yr un lleoliad. Mae hyn yn ei gwneud hi'n bosib deall y cysylltiadau a'r rhyngweithio rhwng adnoddau naturiol megis bioamrywiaeth planhigion, niferoedd adar a pheillwyr, pridd a dŵr. Cynhelir yr arolygon arbenigol ar adegau gwahanol, e.e. yn gynnar y bore, caiff adar eu harolygu.

*Bydd data sy'n cael ei gasglu ar y tir yn cael ei anfon at ffermwyr a rheolwyr tir yn hwyrach yng ngwanwyn 2022. Bydd cyhoeddiadau am ganlyniadau terfynol arolwgog cenedlaethol ar gael yn gyhoeddus ar ddyddiad hwyrach.*

## Cefnogaeth undebau am yr Arolwg Maes Cenedlaethol

### NFU ac FUW yn cefnogi'r Arolwg Maes Cenedlaethol


*"Mae'r dystiolaeth wyddonol ddibynadwy a chadarn sy'n cael ei chasglu gan Arolwg Maes ERAMMP yn caniatáu asesu effeithiolrwydd a gwerth am arian Glastir, sy'n hynod bwysig, yn enwedig i ffermwyr a rheolwyr tir weld beth sydd wedi'i gyflawni drwy fod yng nghynllun Glastir."*

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU)



*"Mae'r Arolwg Maes Cenedlaethol yn rhan bwysig o werthuso effaith Glastir ar ein hamgylchedd amaethyddol."*

Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)



## Rhagor o wybodaeth am Arolwg Maes Cenedlaethol ac ERAMMP

Gallwch ddarllen yr adroddiadau, newyddion ac allbynnau diweddaraf gan ERAMMP ar y wefan

[www.erammp.cymru](http://www.erammp.cymru)

UKCEH a Llywodraeth Cymru sy'n ariannu ERAMMP

*Sylwer: Nid yw'r Arolwg Maes Cenedlaethol yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â chydymffurfiaeth na phroses arolygu Cynllun y Taliad Sylfaenol neu Glastir ac ni fydd yn effeithio ar eich taliadau presennol.*

Hysbysiad preifatrwydd, gweler

<https://erammp.wales/cy/preifatrwydd-cylchlythyr>